"SAFWCH YN LLONYDD . . . AC FE WELWCH Y FUDDUGOLIAETH A RYDD JEHOFAH ICHWI"

Nodyn i'r siaradwr:
Ag Armagedon o'n blaen, helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi'r angen am ffydd ac ufudd-dod. Bydd ein goroesi yn dibynnu ar ein chwimder i ufuddhau i gyfarwyddiadau penodol

MAE HI'N IAWN FOD Y DDYNOLIAETH YN YMBOENI AM YR HYN SYDD O'N BLAEN (5 mun.)

Mae problemau byd-eang yn ysgogi rhai arbenigwyr i rybuddio fod yr hil ddynol mewn perygl enbyd (*g*90 2/8 31)

Nid ei phroblemau ei hun—gorboblogi, newyn, llygredd, rhyfeloedd, ac yn y blaen—fydd yn achosi ei chwymp ond llaw Duw yn y "gorthrymder mawr" (Mth 24:3, 21)

Ei diwedd fydd "rhyfel ar ddydd mawr Duw, yr Hollalluog" (Dat 16:14; Joel 3:12, 13)

Beth fydd eich sefyllfa chi yn y rhyfel dwyfol sydd ar ddod? 'Fydd disgwyl ichwi ymladd?

Beth 'rydych yn ei ddysgu i'ch plant ac eraill ynglŷn â hyn?

Mae'n bwysig gwybod beth yw'r olygwedd neu'r safbwynt cywir, oherwydd 'rydym am fod wedi'n paratoi ac am oroesi (*w*86 12/15 24 ¶14)

Rhyfel Duw ydyw, felly rhesymol edrych i'w gyfeiriad ef am ateb

BETH WNEWCH CHI YN Y RHYFEL TERFYNOL HWNNW? (16 mun.)

Yn ystod rhyfel mae unigolion yn aml yn ochri ag un ochr neu'r llall fel ymladdwyr gweithredol

Mae eraill yn ceisio ffoi allan o gylch y frwydr er mwyn cadw'n fyw

Fe fydd rhyfel dydd mawr Duw yn fyd-eang, felly ni ellir ffoi i barth neu genedl niwtral

A ddisgwylir i bobl fydd yn dewis ochri â Duw ymladd a difa'r rhai drwg?

Pan oedd yr Iddewon yn bobl Dduw, 'roedd ganddyn' nhw fyddin ac 'roedden' nhw'n ymladd rhyfeloedd theocrataidd pan orchmynnid nhw i wneud hynny

Rhoddodd Jehofah awdurdod iddyn' nhw i frwydro yn erbyn preswylwyr paganaidd Gwlad yr Addewid

Fe wnaethant felly dan arweiniad Josua a chyda help Duw (Deut 7:1, 2; Jos 10:40-42)

Ceisiodd Dafydd, hefyd, gyfarwyddyd Duw wrth arwain byddinoedd Israel mewn rhyfel (1Cron 14:10, 16)

Ai dyma'r partwm i Gristnogion, gan ddangos y bydd cyfran inni mewn ymladd yn Armagedon?

Digwyddodd esiampl y medrwn ddysgu ohoni yn hanes Israel dan Jehosaffat (*w*84 7/1 13-19)

Pan agosaodd cenhedloedd o elynion, ceisiodd ef hefyd arweiniad Duw (2Cron 20:1, 5, 6, 10-12)

Atebodd Duw drwy Lefiad o'r enw Jehasiel (2Cron 20:14-17)

Yn ddiolchgar am arweiniad Duw, ufuddhaodd Jehosaffat a bu'n fuddugol (2Cron 20:18, 20)

Drwy ymyrraeth Jehofah, trodd byddinoedd y gelyn y naill ar y llall

Arweiniodd hyn i ddifetha'i gilydd heb fod yn rhaid i Israel ymladd (2Cron 20:22-24)

Molodd, neu bendithiodd, Israel Dduw (Ystyr Beracha ydi "bendith") (2Cron 20:26)

Prawf hyn y gall Duw drechu gelynion heb fod yn rhaid i'w weision ymladd

Ai dyma'r patrwm ar gyfer "rhyfel ar ddydd mawr Duw, yr Hollalluog"? (Dat 16:14)

Dengys yr Ysgrythurau Cristnogol Groeg mai 2 Cronicl 20:17 ydi'r patrwm ar gyfer pobl Dduw heddiw

Darlunia Datguddiad mai dim ond byddinoedd yn y nef fydd â chyfran yn y rhyfela fel cefnogwyr Iesu Grist (Dat 17:14; 19:11-16)

Felly, mae 2 Cronicl 20:17 yn gyngor mae angen inni ei ystyried yn ofalus

RHAID INNI DDILYN CYFARWYDDIADAU DUW (12 mun.)

Mae gennym gyfarwyddiadau penodol oddi wrth Dduw yn dweud beth y dylem a beth na ddylem ei wneud

'Roedd angen i'r Iddewon gynt ddilyn cyfarwyddiadau cyfundrefnol Jehosaffat

'Fedren' nhw ddim rhesymu, gan na fyddai angen iddyn' nhw ymladd, y gallen' nhw aros adre i ofalu am y teulu, y fferm, neu fusnes

'Roedd 'sefyll yn llonydd yn eu lle' yn gofyn gymaint o ufudd-dod â phe gorchmynnid iddyn' nhw ymladd

'Wnawn ni, hefyd, ddilyn cyfarwyddiadau?

Wrth inni weld y drygionus yn cael eu difa, efallai y temtir ni i fynegi teimladau dialedd am anghyfiawnderau'r gorffennol

Ynglŷn â'n tuedd i adael pethau yn nwylo Duw, sut 'rydym ym ymateb i anghyfiawnderau 'nawr?

Mae anghyfiawnderau ac anghyfartaleddau yn arwain llawer o offeiriaid a gweinidogion Gwledydd Cred i wrthdystio ac ymgyrchu dros newidiadau (*g*87 4/22 3-4; *w*86 7/15 27)

Oes tuedd debyg ynom ni?

'Phenodwyd mohonom ni i fod yn ddienyddwyr (2Thes 1:6-9; Heb 10:30)

Cyngor y Beibl yw bod yn niwtral ac edrych i gyfeiriad Duw am ateb (In 17:14, 16)

Yn hytrach na siarad am yr hyn y dylai cyfundrefnau a chymdeithasau dynol ei wneud, fe ddylem ni gyfeirio sylw at y Deyrnas fel y feddyginiaeth sydd ei hangen

O wneud hynny, 'rydym yn sefyll yn ein "lle" ac yn dilyn cyfarwyddiadau

Dysgir ni i 'brysuro dyfodiad Dydd Duw' (2Pedr 3:11-13)

'Ydi'ch dull byw chi 'nawr yn adlewyrchu'ch cred fod dydd Jehofah yn agos?

'Ydyn ni'n ystyried gwasanaethu Duw fel rhywbeth didaro, rhywbeth gyda llaw, neu'n hytrach fel rhywbeth holl-bwysig sy'n haeddu'n hymdrechion gorau ni, gan roddi gwasanaethu Duw yn gyntaf peth yn ein bywyd, a ffitio adloniant, gwaith, hobiau, ac yn y blaen, o gwmpas hynny? (*bw* 185)

'Ydym ni'n fodlon derbyn amseru Duw a'i ddull o drin materion?

Ef ŵyr orau ynglŷn ag amseru'r diwedd; 'does dim angen ceisio amcangyfrif Ei fwriad (2Pedr 3:8, 9; *bw* 173-6; *w*74 56-7)

Mae angen parhau gyda'r pregethu sydd wedi'i aseinio i ni (Rhuf 10:10, 18)

Mae rhai wedi bwrw amcan y byddwn rywdro yn peidio â'n pregethu gan ymlacio i ddisgwyl y diwedd

Dywed y Beibl yn syml am i ni bregethu nes daw'r diwedd (*w*88 1/1 25-6, 28-9; *w*88 7/15 10-11)

Mae eraill yn pendroni tybed beth fydd cynnwys ein neges wrth inni agosau at "ddydd dial" (Eseia 61:2)

'Rydym eisoes yn cyflwyno neges rymus; rhaid bod yn effro i gyfarwyddyd theocrataidd wrth i'r diwedd agosau

'Wnawn ni byth beidio â siarad am Dduw a'i bwrpasau

Hyd byth fe adroddwn am ei weithredoedd a sôn am ei fwriadau (2Cron 20:21)

Fe ddylem ni 'nawr fod yn "ymroi yn llwyr i bregethu'r Gair, gan dystiolaethu" (Act 18:5; *w*76 345-6)

CRYFHEWCH EICH HYDER 'NAWR (12 mun.)

Yn ystod rhai adegau yn eu hanes, fe ollyngodd yr Israeliaid eu hyder yn Nuw; na foed i hynny byth ddigwydd yn ein hanes ni (Eseia 30:15)

Gweithiwch 'nawr i gadarnhau eich hyder

Efallai na fydd pethau rhwng 'nawr a'r byd newydd yn gweithio allan yn union fel y bu i ni'n bersonol ddisgwyl

Os yw'n hyder yn gadarn, 'wnawn ni ddim cael ein rhwystro

Efallai y gall caledi a fedr ddatblygu gael effaith arnom (Hab 3:17; *w*73 758-9)

Gallai fod yn rhywbeth fyddai'n naturiol yn cynhyrfu pobl ac yn achosi pryder

Mae gofyn bod yn deyrngar ac amyneddgar, gan 'sefyll yn llonydd' gyda hyder yn Nuw (2Cron 20:17, 20; Hab 3:16, 18)

Â hyder yn llwyddiant bwriadau Duw—gan gynnwys ei fwriad o sicrhau fod y dyrfa fawr yn goroesi—'wnawn ni ddim cael ein rhwystro os digwydd pethau annisgwyl

'Wnawn ni ddim chwaith ganiatau i bwysau pryderon dorri ein perthynas â Jehofah (Heb 10:37-39)

Heddiw ac yn y dyfodol mae arnom angen y nerth y medrwn dynnu arno drwy gymdeithasu â chyd-Gristnogion

Fe orymdeithiodd yr Iddewon gynt o dan Jehosaffat yn bobl gynulledig (*w*84 7/1 18 ¶16)

'Ydych chi'n rhan o addolwyr cynulledig 'nawr? (Heb 10:24, 25)

Sylweddolwch fod Duw yn achub ei bobl hyd yn oed 'nawr (Gal 1:4)

Mae'n ein helpu i beidio â bod yn rhan o'r oes ddrwg

Hyd yn oed petai gelyn yn lladd Cristion, gall Duw ddiogelu sail gobeithion tragwyddol hwnnw (Mth 10:28)

Mae angen inni fod ar ochr Jehofah; peidiwch ag oedi penderfynu

Mae hyn yn cynnwys nid yn unig ymgysegru a bedydd ond efelychu ffyrdd Duw ac ufuddhau i'w orchmynion (Iago 1:22)

Felly fe fyddwn wedi'n paratoi i fod ymhlith ei bobl ufudd, fydd yn gweithredu 2 Cronicl 20:17 yn ystod y gorthrymder mawr

Fe fydd y fath rai yn gweld iachawdwriaeth Jehofah ac yn ei fendithio am byth

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

© 1992 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir Pob Hawl